Traws gwlad

Ar brynhawn oer aeth llond bws o blant Blynyddoedd 3/4/5 a 6 lawr i gaeau Plas-crug i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Traws Gwlad y Sir. Llongyfarchiadau i chi i gyd am wneud eich gorau glas a llongyfarchiadau arbennig i Ashley Stephens, Martin Evans, Josh Shaw, Sara Morgan a Holly Richards. Pob lwc i chi yn y rownd derfynol.

Gala nofio

Cynhaliwyd y Gala flynyddol ym mhwll Canolfan Hamdden Plas-crug a bu llawer iawn o blant yr adran Iau yn cystadlu. Da iawn chi am gymryd rhan a llongyfarchiadau i'r rhai ohonoch aeth ymlaen i nofio yn y Gala Fawr ple cafwyd llwyddiant yn erbyn ysgolion mwya'r cylch.

Gweithdy drama

Daeth Gill Ogden i ymweld â'r ysgol yn ddiweddar i gynnal gweithdy drama ar gyfer blwyddyn 5/6. Cafodd pawb fore wrth eu bodd yn chwarae rôl ac yn meithrin sgiliau cyfathrebu. Edrychwn ymlaen i groesawu Gill yn ôl atom cyn hir i ddatblygu'r gwaith

Canolfan y Celfyddydau

Diwrnod o wneud 'llanast' oedd o flaen rhai o ddisgyblion yr adran Iau yn ddiweddar wrth iddynt fynychu gweithdy celf yng Nghanolfan y Celfyddydau. Cawsant gyfle i arbrofi gyda dulliau o wneud paent eu hunain a diddorol oedd gweld eu gwaith llaw ar ôl iddynt ddychwelyd yn ôl i'r ysgol. Roedd pob un ohonynt wedi llwyddo i greu rhywbeth unigryw ac roedd yn bleser gweld y mwynhad ar eu hwynebau.